# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ar brosiect i greu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (‘**ADUS**’) yng Nghymru. Bydd yr ADUS yn darparu proses unedig ar gyfer Byrddau Diogelu wrth iddynt gynnal adolygiadau lladdiad domestig, adolygiadau ymarfer oedolion, adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau lladdiad iechyd meddwl ac adolygiadau o laddiad ag arf ymosodol.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu Storfa Ddiogelu Cymru (‘**y Storfa**’) ac mae'n parhau i ymwneud â datblygiad parhaus y Storfa, ei darpariaeth a'i chynnal ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr holl Adroddiadau ADUS sydd wedi'u cwblhau yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r hyn a ddysgir ar sail Cymru gyfan drwy greu adroddiadau thematig. Bydd Defnyddwyr Cymeradwy yn cael mynediad i'r Storfa er mwyn llywio arferion diogelu a dysgu gweithwyr proffesiynol megis swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac at ddibenion ymchwil academaidd.

Bydd Adroddiadau ADUS yn cael eu llunio mewn ffordd sy'n dileu unrhyw fanylion personol a/neu'n defnyddio ffugenwau i leihau'r posibilrwydd y gellir adnabod unigolion o Adroddiad ADUS a gedwir yn Storfa Ddiogelu Cymru. Mae posibilrwydd o hyd, fodd bynnag, er gwaethaf y defnydd o fesurau diogelu o'r fath, y gallai unigolion y cyfeirir atynt yn Adroddiadau ADUS gael eu hadnabod o hyd drwy ddulliau rhesymol sydd ar gael (ee chwilio ar y rhyngrwyd), yn enwedig pan fo'r digwyddiad sydd wedi sbarduno'r adolygiad yn un hysbys neu'n un sydd wedi cael sylw yn y cyfryngau. Yn sgil hynny, mae Adroddiadau ADUS yn cael eu trin fel pe baent yn cynnwys data personol unigolion.

Bydd data personol yr adolygwyr sy'n ysgrifennu Adroddiadau ADUS a data personol unigolion sy'n cael mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru hefyd yn cael eu prosesu.

O dan gyfraith diogelu data y DU, Llywodraeth Cymru fydd rheolydd y data personol a brosesir gan Storfa Ddiogelu Cymru.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am Storfa Ddiogelu Cymru, sut a pham y caiff eich data personol eu casglu, eu storio, eu defnyddio a'u rhannu. Mae hefyd yn esbonio'ch hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

## TERMAU ALLWEDDOL

| **Termau Allweddol** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **Defnyddwyr cymeradwy** | Ystyr defnyddwyr cymeradwy yw unigolion sydd wedi cofrestru â Hwb Cydgysylltu ADUS, sydd wedi cael enw defnyddiwr a chyfrinair ac sydd wedi cytuno â'r Telerau Defnyddio ar gyfer Storfa Ddiogelu Cymru. |
| **Hwb Cydgysylltu ADUS** | Hwb Cydgysylltu ADUS yw'r corff sy'n darparu swyddogaeth gydgysylltu ganolog ar gyfer ADUS, gan roi enwau defnyddwyr a chyfrineiriau i bobl gael mynediad i'r Storfa a |

| | |
|---|---|
| | threfnu gweithgareddau fel hyfforddiant a rhannu gwybodaeth a diweddariadau. |
| **Adroddiadau ADUS** | Ystyr adroddiadau ADUS yw adroddiadau a gynhyrchir drwy'r broses ADUS mewn perthynas ag Adolygiadau Lladdiad Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiad Iechyd Meddwl. |

**STORFA DDIOGELU CYMRU A PHROSESU DATA PERSONOL**

**<u>Data personol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiadau ADUS</u>**

Bydd Adroddiadau ADUS yn cynnwys gwybodaeth am y digwyddiad sy'n destun yr Adolygiad, ynghyd â gwybodaeth ddaearyddol, dyddiadau a gwybodaeth arall y mae unigolion wedi'i rhoi sy'n ymwneud â'r digwyddiad neu'r cefndir iddo. Gallai'r wybodaeth hon ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall a ddefnyddir gan rywun arall (ee chwiliad ar y rhyngrwyd am wybodaeth) olygu y gellir adnabod unigolion.

Bydd Adroddiad ADUS yn cael ei ddarparu i'r Hwb Cydgysylltu ADUS gan y Bwrdd Diogelu perthnasol. Y Bwrdd Diogelu fydd yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad ADUS.

**<u>UNIGOLION Y MAE EU GWYBODAETH WEDI'I CHYNNWYS YN ADRODDIADAU ADUS</u>**

**Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data personol a'n sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data**

O dan gyfraith diogelu data y DU, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio eich data personol dim ond pan fo ganddi sail gyfreithlon dros wneud hynny.

Mae'r gwaith prosesu sy'n gysylltiedig â gweithredu Storfa Ddiogelu Cymru fel a ganlyn:

- Bydd Adroddiad ADUS yn cael ei lanlwytho i Storfa Ddiogelu Cymru ynghyd â rhywfaint o fetadata cyfatebol (teitl, blwyddyn cyhoeddi, blwyddyn digwyddiad, math o adroddiad, casgliadau y byddai'n perthyn iddynt ac ati);

- Mae Adroddiad ADUS wedi'i anodi â themâu allweddol. Yna ychwanegir yr wybodaeth hon at y metadata sydd eisoes wedi'u darparu. Mae hon yn broses awtomatig nad yw'n dibynnu ar fewnbwn defnyddwyr.

- Yna caiff Adroddiad ADUS ei storio ar weinydd ffeiliau a bydd cyfeirnod yn cael ei ychwanegu at y metadata yn nodi ble mae'r ffeil wedi'i storio.

- Yna bydd Defnyddwyr Cymeradwy yn gallu cael mynediad i'r Storfa drwy borth ar y we. Bydd Defnyddwyr Cymeradwy yn gallu defnyddio swyddogaeth chwilio'r Storfa i chwilio'r data sy'n cael eu storio yng nghronfa ddata Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd y swyddogaeth chwilio yn cyfeirio at yr Adroddiad ADUS perthnasol ac yn darparu cyfeirnod ffeil y gall y Defnyddiwr Cymeradwy ei ddefnyddio i lawrlwytho'r ffeil, neu lanlwytho'r Adroddiad ADUS i'r syllwr dogfen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ffaith bod prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol a gynhwysir yn Adroddiadau ADUS. Mae'r sail gyfreithiol hon yn cynnwys swyddogaethau cyhoeddus a phwerau a nodir yn y gyfraith. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru

wneud unrhyw beth sy'n briodol i hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru. Ystyrir bod cymryd cyfrifoldeb am weithredu Storfa Ddiogelu Cymru yn hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru.

### Data categori arbennig

Data categori arbennig yw data personol sydd angen mwy o amddiffyniad oherwydd ei fod yn sensitif ac yn cynnwys:

- data personol sy'n datgelu **tarddiad hiliol neu ethnig**;
- data personol sy'n datgelu **barn wleidyddol**;
- data personol sy'n datgelu **credoau crefyddol neu athronyddol**;
- data personol sy'n datgelu **aelodaeth o undebau llafur**;
- **data genetig**;
- **data biometrig** (lle y'u defnyddir at ddibenion adnabod);
- data yn ymwneud ag **iechyd**;
- data sy'n ymwneud â **bywyd rhywiol** person; a
- data sy'n ymwneud â **chyfeiriadedd rhywiol** person.

Er mwyn prosesu data categori arbennig yn gyfreithlon, rhaid ichi nodi amod ar gyfer prosesu'r data hwnnw yn ogystal â'r sail gyfreithlon.

Amod Llywodraeth Cymru ar gyfer prosesu data categori arbennig a gynhwysir yn Adroddiadau ADUS yw bod prosesu'n angenrheidiol o ganlyniad i fudd cyhoeddus sylweddol, sef rhwymedigaeth statudol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru.

### Data am droseddau

Yn yr un modd â data categori arbennig, rhoddir amddiffyniad ychwanegol i ddata personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau hefyd. Mae data am droseddau yn cynnwys ystod eang o wybodaeth gan gynnwys gweithgarwch troseddol, honiadau, ymchwiliadau ac achosion. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â honiadau heb eu profi, amodau neu gyfyngiadau a osodir ar unigolyn yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol neu fesurau sifil a allai arwain at gosb droseddol os na chedwir atynt.

Er mwyn prosesu data am droseddau yn gyfreithlon, mae angen i Lywodraeth Cymru nodi amod ar gyfer prosesu data am droseddau yn ogystal â sail gyfreithlon.

Amod Llywodraeth Cymru ar gyfer prosesu data am droseddau a gynhwysir yn Adroddiadau ADUS yw bod prosesu'n angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol, sef rhwymedigaeth statudol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru.

### Rhannu data personol

Bydd Adroddiadau ADUS yn cael eu darparu i Brifysgol Caerdydd i'w prosesu a'u huwchlwytho i Storfa Ddiogelu Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gytundeb Prosesu Data gyda Phrifysgol Caerdydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol Caerdydd sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei huwchlwytho i'r Storfa. Ni chaniateir i Brifysgol Caerdydd ddefnyddio unrhyw ddata personol at ei dibenion ei hun a chaniateir dim ond prosesu data personol at y dibenion a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

Bydd Defnyddwyr Cymeradwy yn cael mynediad i'r Storfa. Efallai y bydd achlysuron lle y gellir adnabod unigolion o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad ADUS, oherwydd gwybodaeth ychwanegol sydd gan y Defnyddiwr Cymeradwy, neu y mae ganddo fynediad ati.

Mae'n ofynnol i Ddefnyddwyr Cymeradwy gadw at y Telerau Defnyddio ar gyfer Storfa Ddiogelu Cymru sy'n eu hatal rhag gwneud y canlynol:

- defnyddio deunydd a data yn Storfa Ddiogelu Cymru at unrhyw ddiben heblaw gwella arferion diogelu a dysgu gweithwyr proffesiynol megis swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ymchwil academaidd;

- ceisio adnabod pobl y cyfeirir atynt yn Storfa Ddiogelu Cymru.

**Sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw**

Bydd Adroddiadau ADUS yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru am gyfnod amhenodol at ddibenion gwella arferion diogelu a dysgu gweithwyr proffesiynol megis swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ymchwil academaidd.

**Ble caiff gwybodaeth bersonol ei chadw**

Yn gyffredinol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio ar systemau cwmwl diogel (Microsoft) Prifysgol Caerdydd. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn y DU neu mewn gwledydd/ardaloedd yr ystyrir bod ganddynt ddarpariaethau diogelwch preifatrwydd a gwybodaeth digonol, fel yr AEE. Fodd bynnag, ceir adegau pan fydd angen inni storio gwybodaeth y tu allan i'r lleoliadau hyn a phan fyddwn ni yn gwneud hynny, byddwn yn cynnal asesiadau risg trosglwyddo pan fo angen er mwyn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau preifatrwydd. Gall hyn olygu gosod rhwymedigaethau cytundebol ar dderbynnydd eich gwybodaeth bersonol pan nad oes unrhyw fesurau diogelu perthnasol eraill yn bodoli. Bydd mesurau technegol fel amgryptio hefyd yn cael eu hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod gan Brifysgol Caerdydd rwymedigaeth i sicrhau mesurau diogelwch priodol i atal data personol rhag cael eu colli yn ddamweiniol neu eu defnyddio neu eu cyrchu'n anghyfreithlon. Dim ond Defnyddwyr Cymeradwy a gaiff fynediad i'ch gwybodaeth bersonol. Bydd y rhai sy'n prosesu eich gwybodaeth yn gwneud hynny dim ond mewn modd awdurdodedig yn unol â'r Telerau Defnyddio ar gyfer Storfa Ddiogelu Cymru ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Mae gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data a amheuir. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am achosion o dorri rheolau diogelwch data a amheuir pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith inni wneud hynny.

**DEFNYDDWYR CYMERADWY**

**Data personol a gaiff eu casglu**

Er mwyn rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair ichi i'ch galluogi i gael mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru ac er mwyn monitro eich defnydd o'r Storfa, bydd y data personol a ganlyn yn cael eu casglu a'u prosesu gan Hwb Cydgysylltu ADUS a Storfa Ddiogelu Cymru:

- Enw;

- Cyfeiriad e-bost;

- Cyfeiriad y sefydliad rydych chi'n gweithio iddo;

- Defnydd o'r Data (h.y. pan geir mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru, math o ddata y ceir mynediad atynt)

**Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data personol a'n sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data**

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'ch data personol dim ond at y dibenion y casglwyd y data ganddi. Nodir y dibenion isod:

- I'ch cofrestru fel Defnyddiwr Cymeradwy
- I reoli eich cofrestriad
- I olrhain eich defnydd o'r Storfa er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r Telerau Defnyddio hyn
- I wella Storfa Ddiogelu Cymru

O dan gyfraith diogelu data y DU, dim ond pan fo sail gyfreithlon dros wneud hynny y caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'ch data personol:

| **Sut y defnyddir data** | **Y sail gyfreithiol** |
|---|---|
| I'ch cofrestru fel Defnyddiwr Cymeradwy | Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ffaith bod prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol. Mae'r sail gyfreithiol hon yn cynnwys swyddogaethau cyhoeddus a phwerau a nodir yn y gyfraith. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol i hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru. Ystyrir bod cymryd cyfrifoldeb am weithredu Storfa Ddiogelu Cymru yn hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru. |
| I reoli eich cofrestriad | Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ffaith bod prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol. Mae'r sail gyfreithiol hon yn cynnwys swyddogaethau cyhoeddus a phwerau a nodir yn y gyfraith. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol i hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru. Ystyrir bod cymryd cyfrifoldeb am weithredu Storfa Ddiogelu Cymru yn hyrwyddo llesiant cymdeithasol Cymru. |
| I olrhain eich defnydd o'r Storfa er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r Telerau Defnyddio hyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ffaith ein bod yn cyflawni tasg er budd y cyhoedd i sicrhau bod y data a gynhwysir yn y Storfa yn cael eu defnyddio'n briodol a bod diogelwch y data yn cael ei sicrhau. |
| I wella Storfa Ddiogelu Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ffaith ein bod yn cyflawni tasg er budd y |

| | |
|---|---|
| | cyhoedd wrth geisio gwella gweithrediad ac ymarferoldeb Storfa Ddiogelu Cymru. |

**Rhannu eich data personol**

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data personol ag unrhyw drydydd parti ar wahân i Brifysgol Caerdydd fel y nodir yn adran rhannu data'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

**Am ba hyd y bydd y data personol yn cael eu cadw**

Bydd eich data personol yn cael eu cadw cyhyd â'ch bod wedi'ch cofrestru fel Defnyddiwr Cymeradwy Storfa Ddiogelu Cymru.

**Ble caiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw**

Bydd eich data personol yn cael eu cadw yn y Deyrnas Unedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd yn cael ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru y tu allan i'r DU a/neu'r AEE.

Mae gan Lywodraeth Cymru fesurau diogelwch priodol i atal data personol rhag cael eu colli'n ddamweiniol neu eu defnyddio neu eu cyrchu'n anghyfreithlon. Rydym yn cyfyngu ar fynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r rhai sydd ag angen busnes gwirioneddol i gael mynediad ati. Bydd y rhai sy'n prosesu eich gwybodaeth yn gwneud hynny mewn modd awdurdodedig yn unig ac yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd weithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Byddwn yn rhoi gwybod ichi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am achosion o dorri rheolau diogelwch data a amheuir pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith inni wneud hynny.

**<u>EICH HAWLIAU</u>**

O dan y gyfraith diogelu data, mae gennych nifer o wahanol hawliau y gallwch eu harfer yn rhad ac am ddim. Mae'r hawliau hyn wedi’u crynhoi yn y tabl isod. Mae rhai o'r hawliau'n berthnasol o dan amgylchiadau penodol yn unig ac ni fydd yr holl hawliau yn berthnasol mewn perthynas â'n defnydd o'ch data personol:

| **Eich hawliau** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Mynediad | Yr hawl i gael copi o'ch data personol (hawl i gael mynediad) |
| Cywiro | Yr hawl i fynnu bod unrhyw gamgymeriadau yn eich data personol yn cael eu cywiro |
| Dileu | Yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i fynnu bod eich data personol yn cael eu dileu |
| Cyfyngu ar brosesu | Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i'w gwneud yn ofynnol i gyfyngu ar ddefnydd o'ch data personol (er enghraifft, os ydych yn dadlau yn erbyn cywirdeb y data) |
| Cludadwyedd data | Yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i gael gweld eich data personol mewn fformat strwythuredig, cyffredin y gellir ei ddarllen â |

| | |
|---|---|
| | pheiriant a/neu drosglwyddo'r data hwnnw i drydydd parti |
| Gwrthwynebu | Yr hawl i wrthwynebu i'ch data personol gael eu prosesu ar gyfer marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio) a'r hawl, o dan rai amgylchiadau, i wrthwynebu parhau i brosesu eich data personol ar sail buddiannau cyfreithlon. |
| Peidio â bod yn destun penderfyniadau unigol awtomataidd | Yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio) sy'n cael effaith gyfreithiol sy'n berthnasol ichi neu'n effeithio'n sylweddol arnoch chi |

I gael rhagor o wybodaeth am bob un o'r hawliau hyn, gan gynnwys ym mha amgylchiadau y maent yn berthnasol, cysylltwch â ni neu gweler y Canllawiau gan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU (ICO) ar hawliau unigolion o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Os hoffech arfer unrhyw un o'ch hawliau, y ffordd hawsaf ichi roi gwybod inni yw drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn: ADUSCymru@llyw.cymru. Gallwch hefyd ffonio neu ysgrifennu at ein Swyddogion Diogelu Data (gweler isod: '**Sut i gysylltu â ni**'). **Nodwch y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn ichi wneud y canlynol:**

- Rhoi digon o wybodaeth i'n helpu ni i'ch adnabod;
- Rhoi prawf inni o'ch hunaniaeth a'ch cyfeiriad (ee copi o'ch trwydded yrru neu basport);
- Rhoi gwybod inni pa hawl yr hoffech ei arfer a'r wybodaeth y mae eich cais yn ymwneud â hi.

**Sut i gwyno**

Gobeithiwn y gall ein Swyddogion Diogelu Data ddatrys unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych chi am ein defnydd o'ch data personol.

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data hefyd yn rhoi ichi'r hawl i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd yn https://cy.ico.org.uk/make-a-complaint/ neu dros y ffôn: 0303 123 1113.

**Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

Cyhoeddwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn gyntaf ar 1 Medi 2024.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod fersiynau wedi'u diweddaru o'n hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan Storfa Ddiogelu Cymru.

**Sut i gysylltu â ni**

Cysylltwch â ni/ein Swyddog Diogelu Data drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn os oes gennych unrhyw gwestiynau am y polisi preifatrwydd hwn neu'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch.

Mae ein manylion cyswllt isod:

| | |
|---|---|
| Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru: | Helen Morris |
| Ein cyfeiriad post | Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ |
| Ein cyfeiriad e-bost | swyddogdiogeludata@llyw.cymru |